Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg
Dechrau'n Deg, Canolfan Plant Integredig, Parc-y-Felin
Stryd Parc-y-Felin
Caerffili
CF83 3AH

This report is also available in English


Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddiad terfynol heb ei



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/07/2019



Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Graddau	Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu
Rhagorol	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Canolfan Dechrau'n Deg Parc-y-Felin wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am hyd at 20 o blant rhwng dwy a thair oed. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn cynnig wyth lle ac yn gweithredu rhwng 9.00am ac 11.30am o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Mae wedi'i leoli yng Nghanolfan Plant Integredig Parc-y-Felin, yng Nghaerffili. Ceir dau unigolyn cyfrifol, sef Helen Morris a Sarah Mutch, sy'n gyfrifol am y gwasanaeth a ddarperir yn gyffredinol. Maent wedi penodi person â chyfrifoldeb sy'n rheoli'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwasanaeth Cymraeg yw hwn.

Crynodeb

Thema	Gradd
Llesiant	Rhagorol
Gofal a Datblygiad	Rhagorol
Yr Amgylchedd	Rhagorol
Arwain a Rheoli	Rhagorol

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn cael cyfleoedd cadarnhaol ac ysgogol sy'n hyrwyddo eu datblygiad a'u llesiant. Mae'r staff yn brofiadol ac yn gymwys, ac maent yn gweithredu fel gweithwyr allweddol i'r plant er mwyn meithrin cysylltiadau da rhwng y gwasanaeth a'r teulu, er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n dda iawn. Mae'r amgylchedd yn cynnwys adnoddau o ansawdd uchel iawn. Mae'n ddeniadol ac yn drefnus i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau diddorol i'r plant. Mae'r systemau rheoli'n effeithiol ac mae systemau cymorth gwych ar waith.

2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru.

3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Gwnaethom un argymhelliad, sydd wedi'i grynhoi yn adran 5.2.

1. Llesiant Rhagorol

Crynodeb

Mae'r plant yn cael gwasanaeth gwych sy'n darparu gofal cynnes a magwrus a phrofiadau cadarnhaol. Maent yn mwynhau amrywiaeth eang o adnoddau a gweithgareddau arbennig sy'n hybu eu datblygiad cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd cymdeithasol, emosiynol, creadigol ac ieithyddol.

Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y clwb. Maent yn symud o amgylch yr amrywiaeth helaeth o weithgareddau yn annibynnol ac yn hunangyfeirio eu chwarae i raddau helaeth. Mae'r meysydd chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel ac ar gael iddynt yn hawdd. Clywsom y plant yn trafod eu dewisiadau â'r staff a oedd yn eu hannog i wneud eu dewisiadau eu hunain. Cânt gymorth i ddatblygu eu diddordebau unigol a dod ag eitemau o'u cartrefi, gan gynnwys mwydod neu flodau. Caiff gweithgareddau eu haildrefnu er mwyn dilyn ac ymateb i geisiadau'r plant, gan hyrwyddo eu dysgu.


Mae'r plant yn cael gofal cyson a chefnogol. Mae'r staff yn cyfarch pob plentyn a'i deulu yn unigol pan fyddant yn cyrraedd. Mae gan y plant weithwyr allweddol sy'n eu hadnabod yn dda ac yn deall eu hanghenion unigol. Maent yn mynd at y staff i gael cysur a sicrwydd, a chânt sylw ymatebol ac amserol. Mae'r plant yn gartrefol ac yn ymddangos fel pe baent yn mwynhau'r amgylchedd, ac yn fodlon arno. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn gan eu bod yn mynychu'n rheolaidd, yn deall yr arferion dyddiol ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hyderus ac yn dawel eu meddwl wrth adael eu plant yn y gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant ar gamau cynnar y broses o feithrin sgiliau i ymdopi â'u teimladau. Maent yn dysgu sut i fynegi eu hemosiynau'n briodol ac yn cael arweiniad a chymorth cyson gan y staff pan fo angen. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi setlo'n dda gan mai'r plentyn sy'n arwain y broses ymgartrefu. Caiff sesiynau pontio ychwanegol eu trefnu, hyd nes bod y plentyn yn barod i ymdopi â bod ar wahân i'w rieni. Mae'r plant yn gwerthfawrogi strwythur y sesiynau ac yn gallu rhagweld y gweithgareddau'n hyderus. Maent yn chwarae'n gydweithredol ac yn defnyddio adnoddau chwarae rôl i fod yn ddychmygus ac yn greadigol. Maent yn rhannu adnoddau yn yr hambwrdd dŵr, yn gwthio teganau yn yr awyr agored ac yn mwynhau gemau sy'n hyrwyddo cymryd troeon. Gwelsom y plant yn aros yn llawn cyffro i roi 'Marc y siarc' yn y bocs yn ystod amser cylch. Mae'r plant yn awyddus i dderbyn gwobr 'seren y dydd' a gyflwynir am ymddygiad cydweithredol a charedig yn ogystal â 'gwrando da'. Hefyd, cânt ymdeimlad o foddhad o'r her o ddefnyddio'r cerrig sarn a'r trawst cydbwyso.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau hunangymorth a'u hyder. Cânt eu hannog a'u cefnogi i ddewis eu bwyd eu hunain ac arllwys diodydd yn ystod amser byrbryd. Maent yn dysgu sut i ddefnyddio cytleri a gefail i afael yn y bara, a chânt ymdeimlad o

gyflawniad ar ôl cwblhau'r tasgau hyn. Defnyddir y Gymraeg drwy gydol y sesiynau ac mae'r plant yn dechrau deall a defnyddio'r iaith yn ddidrafferth. Maent yn mwynhau straeon ac yn canu yn Gymraeg yn frwdfrydig.



2. Gofal a Datblygiad Rhagorol

Crynodeb

Mae systemau a gweithdrefnau hynod effeithiol ar waith, sy'n sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau arbenigol diweddaraf er mwyn darparu gwasanaeth diogel sy'n annog canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Mae proses gadarn ar waith i fonitro'r systemau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn cael blaenoriaeth a bod diogelu'n sail i'r holl arferion.

Ein canfyddiadau


Caiff prosesau amddiffyn plant eu rheoli'n drylwyr ac mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu. Caiff y systemau eu monitro'n rheolaidd ac mae'r person â chyfrifoldeb a'r staff yn wyliadwrus ac yn hyderus i drosglwyddo unrhyw bryderon i'r awdurdod priodol. Mae ffeiliau gofal a phryderon yn cofnodi unrhyw ddigwyddiadau pwysig sy'n effeithio ar lesiant y plant, gan gynnwys anafiadau sy'n bodoli eisoes, a chaiff pob cam gweithredu ei olrhain. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n dda a'u monitro'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw dueddiadau y mae angen mynd i'r afael â nhw i gefnogi'r plant. Mae'r fwydlen wythnosol, a gaiff ei harddangos er mwyn i'r rhieni ei gweld, yn dangos bod yr holl fwyd yn iach ac yn faethlon, ac mae'r gwasanaeth wedi derbyn gwobr Byrbryd Iach Safon Aur. Ar hyn o bryd, mae'r staff wrthi'n gweithio tuag at wobr y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy sy'n hyrwyddo mesurau i wella iechyd plant. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan yng Nghynllun Gwên, sy'n annog brwsio dannedd ac iechyd deintyddol da.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff yn trin y plant â pharch ac yn eu gwerthfawrogi fel unigolion. Maent yn ofalgar, yn gweithredu'n gyson, ac yn darparu ffiniau realistig i'r plant eu dilyn. Maent yn ystyriol o oedran a cham datblygu'r plant ac unrhyw brofiadau personol a allai effeithio ar eu teimladau a'u hymddygiad. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i gefnogi plant sy'n dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd sensitif a medrus iawn, ac mae hyn yn fuddiol iawn i'r plant. Clywsom un aelod o'r staff yn atgoffa plentyn yn dawel i fod yn garedig tuag at blentyn arall a thynnu ei sylw oddi ar y sefyllfa. Mae'r staff yn pen-glinio i fod ar lefel y plant ac yn defnyddio llais digynnwrf i'w harwain. Mae'r staff yn paratoi'r amgylchedd yn ofalus cyn i'r plant gyrraedd ac yn ystyried diddordebau unigol y plant.

Mae anghenion dysgu a datblygu'r plant yn seiliedig ar asesiadau a thargedau sy'n seiliedig ar Broffil y Cyfnod Sylfaen. Mae gan y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau chwarae a chynlluniau gofal lle bo angen. Ym mis Medi, mae'r gwasanaeth yn bwriadu cynnal asesiadau cyfathrebu Wellcomm ar bob plentyn. Cynhelir asesiad 'Ffynnu' ar y plant hynny y nodir bod ganddynt anghenion penodol sy'n ymwneud â'u datblygiad emosiynol neu gymdeithasol, megis pryder gwahanu neu wytnwch emosiynol. Yn dilyn hyn, caiff cynllun gweithredu ei lunio er mwyn cefnogi'r plentyn yn y gwasanaeth ac yn y cartref.

Gwelsom fod y staff yn eistedd gyda'r plant amser byrbryd, yn sgwrsio ac yn helpu'r plant, ac yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol.



3. Yr Amgylchedd — Rhagorol

Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn yr un adeilad â Chanolfan Dechrau'n Deg yng Nghaerffili. Mae'n adeilad ysgol wedi'i adnewyddu sydd wedi'i addasu er mwyn i nifer o wasanaethau ei ddefnyddio ac mae gan bob un ohonynt ardal benodedig. Mae'r gwasanaeth Dechrau'n Deg yn defnyddio un ystafell fawr ac ystafell ar wahân wedi'i gosod fel ardal newid cewynnau a thoiledau. Caiff yr ardal awyr agored helaeth ei rhannu gan yr holl wasanaethau sy'n defnyddio'r adeilad.

Ein canfyddiadau


Caiff systemau diogelwch eu monitro'n drylwyr a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae'r system diogelwch wedi'i rheoli'n dda ac ni all y plant adael y safle heb oruchwyliaeth. Disgwylir i bob ymwelydd lofnodi'r llyfr ymwelwyr er mwyn sicrhau nad oes neb yn dod i mewn i'r gwasanaeth heb awdurdod pan fydd y plant yn bresennol. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob ardal a phob gweithgaredd. Mae hyn yn cynnwys teithiau allan i'r gymuned i'r llyfrgell leol a'r castell cyfagos. Cynhelir gwiriadau gweledol o'r amgylchedd bob dydd a chaiff unrhyw broblemau eu trosglwyddo i'r person sy'n gyfrifol am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r adeilad yn y ganolfan. Mae'r gwasanaeth yn cynnal ymarferion tân bob tymor ac yn cynnwys pob un o'r plant. Caiff y rhain eu cofnodi'n ofalus ac maent yn cynnwys unrhyw faterion o bryder neu beryglon a godwyd. Caiff heintiau eu rheoli'n effeithiol ac mae'r person â chyfrifoldeb yn defnyddio dogfen archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau presennol. Caiff amser cyrraedd a gadael y plant ei gofnodi'n ofalus bob dydd. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y systemau nwy a thrydan yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Adroddiad Arfyniol heb ei gyhoeddi

Mae'r cyfleusterau yn ddeniadol, yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r brif ystafell chwarae yn elwa ar oleuni naturiol da o dair ffenestr sy'n ymestyn o'r llawr i'r nenfwd. Mae'r coed yn yr awyr agored yn darparu golygfa ddeniadol. Mae'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau ar gyfer y plant wedi'u cynllunio yn unol â'r gofynion, ac maent yn ddeniadol, yn ymarferol ac yn gadarn. Mae plant yn cael budd o amgylchedd trefnus sydd wedi'i rannu'n barthau sy'n hawdd eu cyrraedd. Mae'r celfi o faint addas i blant a gellir addasu coesau'r byrddau os oes angen. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn wastad ac yn cynnwys ardal laswelltog, yn ogystal ag ardal i'r plant reidio beiciau a sgwteri. Mae'r toiledau'n hygyrch, yn lân ac yn ffres.

Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'ardal sy'n ystyriol o gyfathrebu' i'r plant er mwyn hyrwyddo eu llesiant. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar rôl yr amgylchedd wrth hybu sgiliau iaith a datblygiad emosiynol. Mae'r staff yn ystyried cynllun, gofod, lefelau sŵn, dewis a goleuadau yn ofalus er mwyn creu cyfleoedd i'r plant gyfathrebu a meithrin eu sgiliau iaith yn rhwydd ac yn hyderus.

Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i ddefnyddio deunyddiau naturiol gymaint â phosibl, ac mae'r defnydd o liain, hesian a phren yn ddeniadol ac yn apelgar i'r plant. Mae'r amgylchedd yn daclus a chaiff unrhyw adnoddau sydd wedi torri eu taflu. Mae gwaith y plant yn cael ei arddangos ar y waliau gyda'u henwau ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt yn y gwasanaeth.



4. Arwain a Rheoli Rhagorol

Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gadarn ac ymdeimlad o ddiben sy'n sicrhau gwelliannau a chanlyniadau da i'r plant a rennir â'r staff a'r rhieni. Mae systemau gwych ar waith i fonitro a gwerthuso'r holl weithdrefnau. Mae'r rheolwyr yn darparu cefnogaeth dda a rheolaidd i'r staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac sy'n cael cyfleoedd datblygiadol a sesiynau goruchwylio da.

Ein canfyddiadau

Mae'r arweinyddiaeth yn rhagweithiol ac mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda iawn. Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir ac sydd ar gael i'r rhieni ei ddarllen bob amser. Dangosodd trafodaethau fod y person â chyfrifoldeb, ei rheolwr llinell a'r unigolyn cyfrifol yn cydweithio er mwyn sicrhau bod yr holl systemau a gweithdrefnau'n dilyn y rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a rhoddir sylw da i ddiogelu'r holl wybodaeth bersonol. Mae rhaglen hyfforddi ar waith sy'n nodi anghenion datblygiadol y tîm, yn ogystal â matrics hyfforddi er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen, a bod hyfforddiant hanfodol wedi'i drefnu ymhell ymlaen llaw.

Mae systemau rhagorol ar waith i fonitro ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r tîm yn defnyddio holiaduron i geisio barn y rhieni am ansawdd y gwasanaeth, ac mae polisi drws agored ar waith lle gall y rhieni gyfarfod â'r staff yn hawdd. Mae'r rhieni'n manteisio ar yr amser pan fyddant yn casglu eu plant i drafod unrhyw faterion amdanynt â'r staff. Cynhelir arsylwadau a thrafodaethau bob dydd er mwyn asesu a gwerthuso unrhyw welliannau sydd eu hangen o safbwynt y plant. Mae'r plant yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy gydol y sesiynau. Mae polisi cwyno ar waith, er nad oes unrhyw gwynion wedi dod i law. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau ac mae'n cynnwys barn y plant, y rhieni a'r staff. Mae cynllun gwella parhaus ar gyfer y lleoliad ar waith, a gaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y staff eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau. Dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn a bod ganddynt y sgiliau a'r hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni eu rolau i safon uchel. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd gyda'u rheolwr llinell, ac mae system cyfarfodydd llesiant hefyd ar waith lle gall y staff roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w rheolwr am unrhyw faterion personol sy'n effeithio ar eu llesiant. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth i bennu addasrwydd y staff.

Mae cydberthnasau gwaith da iawn rhwng y gwasanaeth â'r rhieni, a ddywedodd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr am ei fod wedi helpu i baratoi eu plant ar gyfer yr ysgol. Gan fod y gwasanaeth wedi'i leoli yn y ganolfan Dechrau'n Deg, mae gwybodaeth a chyngor proffesiynol ar gael yn hawdd i'r staff, ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn.


Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella:

- Anfon datganiad o ddiben i AGC bob tro y caiff ei ddiwygio.



6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth, a hynny am dair awr ar 3 Gorffennaf ac am bedair awr y diwrnod canlynol.

- Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Defnyddiwyd ein hadnodd SOFI 2 er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a roddwyd gan y staff;
- gwnaethom siarad â nifer o blant, tri rhiant, y person â chyfrifoldeb a'i rheolwr llinell, ac un aelod o'r staff;
- gwnaethom ystyried y wybodaeth a ddelir gan AGC fel rhan o'r broses gofrestru;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion gan gynnwys y datganiad o ddiben, polisïau, dogfennu diogelu a chofnodion dyddiol;
- gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r holl gyfleusterau, gan gynnwys yr ardal awyr agored;
- gwnaethom roi adborth i'r person â chyfrifoldeb, ei rheolwr llinell a'r aelod o'r staff ar ddiwedd y sesiwn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gofal Dydd Plant** **Gofal Dydd Sesiynol**
Unigolyn Cyfrifol	**Helen Morris** **Sarah Mutch**
Person â chyfrifoldeb	**Lauren Kerby** **Bethan Kay**
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**20**
Ystod oedran y plant	**2 – 3 oed**
Oriau agor	**9.00 – 11.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor yn unig**
Iaith weithredol y gwasanaeth	**Cymraeg a Saesneg**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**Arolygiad cyntaf**
Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn	**3 a 4 Gorffennaf 2019**
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	**Ydy**
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	**Nac ydy**
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	**Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.**
Gwybodaeth Ychwanegol: Dim	

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dyddiad Cyhoeddi 21/08/2019